

Hysbysiad Hwylus ar Ddatblygu Cynaliadwy: Hanes a Chysyniadau

Hysbysiad Hwylus

Mawrth 2015

Crynodeb o hanes datblygu cynaliadwy

Cydnabyddir yn gyffredinol ei bod yn bosibl olrhain meddylfryd datblygu cynaliadwy yn ôl i Gynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar yr Amgylchedd Dynol ym 1972. Serch hynny, dechreuodd y cysyniad o ddatblygu cynaliadwy gael ei drafod yn ddifrifol yn sgil Adroddiad Brundtland ym 1987, sef **Ein Dyfodol Cyffredin**, ac yn sgil Cynhadledd y Cenhedloedd Unedig ar yr Amgylchedd a Datblygu (UNCED) ym 1992, sef y gynhadledd a enwyd hefyd yn Uwchgynhadledd y Ddaear. Am y tro cyntaf, drwy Adroddiad Brundtland, cyflwynwyd yr angen i integreiddio datblygu economaidd, diogelu'r amgylchedd a sicrhau cyfiawnder a chynhwysiant cymdeithasol.

Prif ganlyniadau Uwchgynhadledd y Ddaear oedd

- **Datganiad Rio**, a oedd yn cydnabod hawl gwladwriaethau i ddatblygu economaidd a chymdeithasol ac a oedd yn cynnwys 27 o egwyddorion sy'n gysylltiedig â datblygu cynaliadwy, gan gynnwys rhai cydnabyddedig fel yr egwyddor ragofalus a'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu;
- y weithred o gymeradwyo'r **Egwyddorion Coedwigaeth**, a oedd yn cydnabod pwysigrwydd coedwigoedd i ddatblygu economaidd a chymdeithasol, cymunedau brodorol, bioamrywiaeth a chynnal prosesau ecolegol;
- y weithred o lofnodi'r **Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol** a **Chonfensiwn Fframwaith y Cenhedloedd Unedig ar Newid yn yr Hinsawdd**; ac
- **Agenda 21**, sef cynllun gweithredu gwirfoddol ynghylch datblygu cynaliadwy ar gyfer llywodraethau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol.

Roedd Agenda 21 yn cynnwys ystod eang o feysydd rhaglen a oedd yn canolbwyntio ar ddatblygu cymdeithasol ac economaidd, diogelu'r amgylchedd a gwella ac annog cyfranogiad ymhlith cymunedau, sefydliadau anllywodraethol a grwpiau a nodwyd gan y Cenhedloedd Unedig fel rhai nad oedd ganddynt gynrychiolaeth ddigonol yn y broses o wneud penderfyniadau, gan gynnwys menywod, plant a chymunedau cynhenid. Roedd pennod 28 o Agenda 21 yn cydnabod bod llawer o'r materion yr oedd Agenda 21 yn cyfeirio atynt yn ymwneud â gweithgareddau lleol, a bod gofyn i awdurdodau lleol ym mhob gwlad gyfrannu at unrhyw gamau gweithredu yn eu cylch. Dywedodd y bennod honno y dylai awdurdodau lleol ym mhob gwlad gynnal deialog gyda'u dinasyddion, a chyda cyrff a mentrau preifat lleol, yn ogystal â mabwysiadu Agenda 21 leol. Yng nghyd-destun yr Agenda 21 leol, lluniwyd strategaethau gan awdurdodau lleol i alluogi cymunedau i ddatblygu mewn modd cynaliadwy. Yn y Deyrnas Unedig, roedd yn sail i waith llawer o grwpiau cymunedol lleol. Mae rhai ohonynt yn parhau i weithio ar faterion datblygu cynaliadwy, fel **Ymlaen Ceredigion**, sy'n gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Sir Ceredigion.

Ers Uwchgynhadledd y Ddaear, mae'r Cenhedloedd Unedig wedi creu ystod eang o raglenni, sefydliadau a



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Y Gwasanaeth
Ymchwil

chytundebau rhyngwladol gyda'r nod o sicrhau datblygu cynaliadwy ar raddfa fyd-eang. Mae rhestr o'r prif gytundebau a chonfensiynau a lofnodwyd ers 1992 ar gael ar **Lwyfan Gwybodaeth Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig**. Y cerrig milltir mwyaf arwyddocaol yn y daith hon oedd y rhai a ganlyn:

- **1993** – creu'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy i fonitro a hyrwyddo'r broses o weithredu Agenda 21;
- **1997** – cynnal Uwchgynhadledd y Ddaear +5, er mwyn adolygu ac adnewyddu'r ymrwymiad i weithredu Agenda 21;
- **2000** – cynnal Uwchgynhadledd y Mileniwm yn Efrog Newydd, a arweiniodd at Ddatganiad Mileniwm y Cenhedloedd Unedig, sef set o dargedau i'w cyflawni erbyn 2015, gan gynnwys cynaliadwyedd amgylcheddol, dileu tlodi eithafol a chydraddoldeb i fenywod. Gelwir y targedau hyn bellach yn Nodau Datblygu'r Mileniwm;
- **2002** – cynnal Uwchgynhadledd y Byd ar Ddatblygu Cynaliadwy yn Johannesburg, pan adnewyddwyd yr ymrwymiad rhyngwladol i hyrwyddo datblygu cynaliadwy drwy Gynllun Gweithredu Johannesburg;
- **2012** – cynnal uwchgynhadledd Rio+20, a arweiniodd at y ddogfen **The Future We Want**, lle cafodd gwladwriaethau gyfle i ailddatgan eu hymrwymiad i bob cytundeb, targed a chynllun blaenorol ar ddatblygu cynaliadwy. Gwnaeth y gwladwriaethau ymrwymiad hefyd i ddatblygu cyfres o **Nodau Datblygu Cynaliadwy**, gan adeiladu ar y blaenoriaethau a nodwyd yn Agenda 21 a Chynllun Gweithredu Johannesburg. Yn ogystal, penderfynwyd y dylai **fforwm gwleidyddol lefel uchel ddisodli'r Comisiwn Datblygu Cynaliadwy** er mwyn sicrhau cynnydd o ran gweithredu Agenda 21 a Chynllun Gweithredu Johannesburg, a'r broses o gyflawni'r Nodau Datblygu Cynaliadwy.

Diffinio datblygu cynaliadwy

Mae'r diffiniad gwreiddiol o ddatblygu cynaliadwy, a'r un mwyaf cydnabyddedig, i'w gael yn Adroddiad Brundtland:

Datblygu cynaliadwy yw datblygu sy'n diwallu anghenion y presennol heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau. Mae'n cynnwys dau gysyniad allweddol:

- y cysyniad o 'anghenion', ac yn benodol, anghenion hanfodol pobl dlawd y byd, a'r anghenion y dylid rhoi blaenoriaeth ddigamsyniol iddynt;
- y syniad o'r modd y mae technoleg a threfniadaeth gymdeithasol yn gallu cyfyngu ar allu'r amgylchedd i ddiwallu anghenion y presennol a'r dyfodol.

Yn gyffredinol, defnyddir amrywiadau o ddiffiniad Brundtland mewn strategaethau cenedlaethol ar ddatblygu cynaliadwy. **Mae Strategaeth Datblygu Cynaliadwy yr UE (2006)** yn datgan:

Sustainable development means that the needs of the present generation should be met without compromising the ability of future generations to meet their own needs. [...] It is about safeguarding the earth's capacity to support life in all its diversity and is based on the **principles** of democracy, gender equality, solidarity, the rule of law and respect for fundamental rights, including freedom and equal opportunities for all. It aims at **the continuous improvement of the quality of life and well-being on Earth for present and future generations**. To that end it promotes a dynamic economy with full employment and a high level of education, health protection, social and territorial cohesion



and environmental protection in a peaceful and secure world, respecting cultural diversity.

Mae **Strategaeth Datblygu Cynaliadwy y DU (2005)** yn datgan:

Nod datblygu cynaliadwy yw **galluogi pawb ledled y byd i ddiwallu eu hanghenion sylfaenol a chael gwell ansawdd bywyd**, heb beryglu ansawdd bywyd cenedlaethau'r dyfodol.

O ran Llywodraeth y DU a'r Gweinyddiaethau Datganoledig, anelir at y nod hwnnw mewn ffordd integredig drwy **economi gynaliadwy, arloesol a chynhyrchiol** sy'n sicrhau mwy o gyflogaeth; a **chymdeithas deg** sy'n hyrwyddo **cynhwysiant cymdeithasol, cymunedau cynaliadwy a lles personol**. Gwneir hyn mewn ffyrdd sy'n **diogelu ac yn gwella'r amgylchedd ffisegol a naturiol**, ac yn **defnyddio adnoddau ac ynni** mor **effeithlon** â phosibl.

Mae Cynllun Datblygu Cynaliadwy Cymru, sef **Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned**, yn defnyddio'r diffiniad a ganlyn:

Yng Nghymru, ystyr datblygu cynaliadwy yw rhywbeth sy'n **gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, gan wella ansawdd bywyd i'n cenedlaeth ni ac i genedlaethau'r dyfodol, mewn ffyrdd sy'n:**

- Hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal;
- Gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol ac yn parhau ei derfynau - gan ddefnyddio dim ond ein cyfran deg o adnoddau'r byd a diogelu ein treftadaeth ddiwylliannol.

Datblygu cynaliadwy yw'r broses a ddefnyddiwn i gyflawni nod cynaliadwyedd.

Egwyddorion a Chysyniadau

Egwyddorion Cyffredinol

Yn gyffredinol, mae cytundebau a strategaethau rhyngwladol a chenedlaethol ar ddatblygu cynaliadwy yn cynnwys egwyddorion penodol sydd i'w cymhwyso wrth wneud penderfyniadau llywodraethu mewn ffordd gynaliadwy. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain yn deillio o'r ddau gysyniad allweddol a nodwyd yn niffiniad Brundtland: y cysyniad o anghenion, yn enwedig anghenion pobl dlawd, a'r cysyniad o derfynau, yn enwedig y cyfyngiadau ar allu'r amgylchedd i ddarparu ar gyfer anghenion pobl.

Yr egwyddorion llywodraethu cyffredinol yw:

- byw o fewn cyfyngiadau amgylcheddol;
- gwneud penderfyniadau mewn modd integredig (polisi a deddfwriaeth sy'n ategu ei gilydd);
- llywodraethu 'da' sy'n ddemocrataidd, yn dryloyw, yn gynhwysol, yn gyfranogol ac yn atebol; a
- defnyddio tystiolaeth wyddonol gadarn a chredadwy mewn modd cyfrifol wrth wneud penderfyniadau.

Yn ogystal â'r egwyddorion hyn, mae'r egwyddor ragofalus a'r egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu yn gydnabyddedig, yn enwedig mewn perthynas â gwneud penderfyniadau amgylcheddol.


Mae'r **egwyddor ragofalus** yn cael ei defnyddio pan fydd risg y gall gweithgareddau dynol achosi 'niwed moesol annerbyniol'¹. Yn y cyd-destun hwn, ni ddylid defnyddio diffyg sicrwydd gwyddonol (o ran achos neu effeithiau) fel rheswm dros beidio â gweithredu, cyn belled â bod y camau a gymerir yn gymesur a bod y costau a'r manteision o weithredu wedi cael eu gwerthuso yn erbyn y costau a'r manteision o beidio â gweithredu. Fe'i defnyddir yn gyffredin wrth gyflwyno dadleuon o blaid gweithredu ar newid hinsawdd.

Mae'r **egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu** yn cael ei defnyddio i sicrhau nad trydydd parti sy'n ysgwyddo unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau pobl eraill, fel llygredd aer neu effeithiau newid hinsawdd, lle mae'r rhain yn sgil-gynhyrchion gweithgareddau busnes penodol. Mae **Cynllun Masnachu Allyriadau yr UE** yn enghraifft o ddatrysiad sy'n ymgorffori'r egwyddor hon, gan ei fod yn gosod pris ar garbon, sy'n cael ei dalu gan ddiwydiannau sy'n elwa o ganlyniad i weithgareddau sy'n creu allyriadau carbon.

Ffiniau Planedol

Er mwyn crisialu'r cysyniad o derfynau amgylcheddol, datblygwyd cysyniad y naw **ffin blanedol** gan grŵp o 28 o wyddonwyr yn 2009. Ceir manylion llawn am yr **ymchwil diweddaraf** ar wefan **Canolfan Cydnerthedd Stockholm**. Mae'r ffiniau'n cynrychioli systemau a phrosesau byd-eang y Ddaear sy'n cynnwys lle diogel i bobl a bywyd gwyllt i fyw. Mae rhai yn dadlau y gallai camu y tu hwnt i un neu fwy o'r ffiniau hyn greu pwynt tyngedfennol lle gallai system fyd-eang y Ddaear newid i system sydd yn system tipyn llai dymunol, a hynny'n barhaol. Y naw ffin blanedol yw:

1. Newid yn yr hinsawdd
2. Newid yng nghyfanrwydd y biosffer (colli bioamrywiaeth a rhywogaethau'n diflannu)
3. Teneuo'r osôn ar lefel stratosfferig
4. Asideiddio cefnforoedd
5. Llif biogeogemegol (cylchoedd ffosfforws a nitrogen)
6. Newid i'r system dir (er enghraifft, datgoedwigo)
7. Defnydd dŵr croyw
8. Cynnydd mewn erosolau yn yr atmosffer (gronynnau microsgopig yn yr atmosffer sy'n effeithio ar yr hinsawdd ac ar organebau byw)
9. Cyflwyno endidau newydd (er enghraifft, llygryddion organig, deunyddiau ymbelydrol, nanoddeunyddiau, a micro-blastigion).



Credyd ar gyfer y ddelwedd: Steffen et al, 16 Ionawr 2015, Gwyddoniaeth
Allwedd: BII = amrywiaeth o ran swyddogaethau ecosystemau, gan gymryd effeithiau dynol i ystyriaeth (nid yw'r ffin wedi'i meintioli)
 E/MSY = colli bioamrywiaeth, wedi'i fesur drwy gyfri nifer y rhywogaethau, fesul

¹ <http://www.precautionaryprinciple.eu/>



Yn ôl Canolfan Stockholm, mae'r ymchwil diweddaraf yn dangos bod **y Ddaear eisoes wedi camu y tu hwnt i bedair ffin blanedol**: newid yn yr hinsawdd, newid yng nghyfanrwydd y biosffer (colli bioamrywiaeth), newid i'r system dir a llif biogeogemegol (o ran disbyddu ffosfforws a nitrogen). Nid yw'r gwyddonwyr wedi mesur tri o'r ffiniau eto gan fod y broses o bennu trothwy byd-eang yn gofyn am ddadansoddi nifer o gydrannau unigol a'r modd y maent yn rhyngweithio â'i gilydd, ac felly, mae'n anodd penderfynu ar hyd a lled y ffin fyd-eang. Y ffiniau hyn yw amrywiaeth o ran swyddogaethau, endidau newydd a chynnydd mewn erosolau yn yr atmosffer.

Rhagor o wybodaeth

I gael rhagor o wybodaeth am yr **Hysbysiad Hwylus ar Ddatblygu Cynaliadwy: Hanes a Chysyniadau**, cysylltwch â **Karen Whitfield** (Karen.Whitfield@Cynulliad.Cymru), y Gwasanaeth Ymchwil.

Gweler hefyd:

- [European Commission Sustainable Development policy web-page](#)
- [ICLEI – Gwefan Llywodraethau Lleol o Blaid Cynaliadwyedd](#)

Mae ein [hystod lawn o gyhoeddiadau](#) ar gael ar wefan y Cynulliad: cynulliadcymru.org/cy/bus-home/research.htm

Gallwch hefyd ein dilyn ar Twitter: [@SeneddYmchwil](https://twitter.com/SeneddYmchwil)

Rydym yn croesawu eich sylwadau. Dylid eu hanfon at: **Y Gwasanaeth Ymchwil, Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Caerdydd, CF99 1NA** neu eu hanfon drwy e-bost at Research.Service@Cymru.gov.uk

Mae'r Gwasanaeth Ymchwil wedi llunio'r Hysbysiad Hwylus hwn er budd Aelodau'r Cynulliad a'u staff cymorth. Mae'r awduron ar gael i drafod cynnwys y papurau hyn gydag Aelodau a'u staff ond ni allant roi cyngor i aelodau'r cyhoedd.

Rhif yr ymholiad: 15/0389

Karen Whitfield